Tud 1.

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanbedr 2.5.24 am 7.30

**Presennol**

Helen Johns, Annwen Hughes, Eirwyn Thomas, Robin Ward, Kevin Titley, Jane Taylor Williams.Gwynfor Owen

**Ymddiheuriadau**

Nia Jones, John Evans, Luise Vassey.

**Derbyn cofnodion** cyfarfod diwethaf fel rhai cywir ac eithrio y ffaith y bu trafodaeth parthed cwrs fu Robin Ward arno yn ddiweddar sef “Regional  Development Plan.” Seminar hyfforddi oedd hwn ar lein 28.2.24 ar Gynlluniau Datblygu Strategol.  Son am 4 cynllun datblygu strategol Newydd fydd yn cael eu cynhyrchu, un ar gyfer Gogledd, Canolbarth, De Orllewin a De Ddwyrain.

Mae’r cynlluniau hyn yn hynod bwysig oherwydd byddant yn nodi maint a lleoliad twf tai a chyflogaeth ym mhob rhanbarth a byddant yn dyrannu safleoedd strategol I’w datblygu.

Y seminar yn ymdrin a’r pynciau –

- Y system cynllun datblygu yng Nghymru a’r hyn mae’n ei olygu I gymunedau.
- Beth yw cynlluniau datblygu strategol a sut byddant yn cael eu paratoi
- Yr effeithiau y bydd Cynlluniau datblygu strategol yn eu cael ar y system  cynllun datblygu a
- Pam a sut y dylai cymunedau ymgysylltu a pharatoi’r cynlluniau hyn

Mwy o wybodaeth drwy cymorth cynllunio cymru.

**Datgan Buddiant** – dim

**Ceisiadau Cynllunio** – dim o’r Newydd

Nododd RW bod cais cynllunio – cadw carafan ger Plas Gwynfryn bellach wedi cael ei gymeradwyuo.

**Cafwyd Adroddiad Blynyddol** gan y Cadeirydd Eirwyn Thomas, angen newid rai petha ynddo.

Ychwanegu bod Gwaith ar Cae Deiliog wedi darfod, dim ond torri llwybr yma.  Angen plygu gwrych yn ystod y 2 flynedd nesaf yma.

Eirwyn Thomas yn diolch I bawb am eu cefnogaeth ar hyd y 2 flynedd diwethaf, ac yn bleser cyd weithio. Diolch arbennig I’r Cynghorwyr Sir Gwynfor Owen ac Annwen Hughes. A hwythau yn diolch am y cydweithio bob amser.  Luise Vassey hefyd am ddiolch I Eirwyn am ei holl waith.

Nodi bod Gwaith y wal fynwent wedi darfod a hefyd wal never cut.  Bydda yn dda cael llun I roi yn y papur – bod Cyngor Cymuned yn gwneud rhywbeth o bwys. Llun o Elfyn a Gareth.

**Cadarnhau polisiau** a’u dyddio fel rhai cyywir.

Gwneud yn siwr bod cynllun bioamrywiaeth ar y we a’I arwyddo.

Bod rhestr buddiant yn addas, a ffurflen lwfans. Neb yn cymerud unrhyw lwfansau ar gyfer y flwyddyn.

Swyddogion yn aros ar wahanol bwyllgorau. – yr un a llynedd

Un Llais Cymru – J.TW a Eth

Parc Cenedlaethol - RW

Pasiwyd cadw 3 ar Huchenfeld.- LV, KT, HJ

Dim angen cynrychiolydd ar HAL mwyach.

Llywodraethwyr – KT ar ran Cyngor Plwyf. AH fel cynrychiolydd Cyngor Sir, a'r Clerc fel aelod cyfetholedig – iaith a'r gymuned.

Llwybrau – LV,NJ,

Y Fynwent – Clerc a Eth

Cae Chwarae – JE

Cae Deiliog - ETh

Y Clerc eisiau rhoi cymal yn yr asesiad risg parthed scams e byst. Cadarnhau bod hyn yn iawn

Eirwyn yn trosglwyddo yr awennau I Jane T Williams. Hithau hefyd yn diolch ac yn dymuno yr un cydweithrediad. Diolch I'r Clerc am ei gwaith hefyd. Ac yn cyfaddef y bydd ganddi lawer I ddysgu

Ymlaen felly gyda Gwaith y Cyngor.

Angen dewis ac ethol Is Gadeirydd. Hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Trafod yn y cyngor nesaf.

**Cyllid £18165 yn cario 'mlaen o Mawrth 2024**

**Dangos y spread sheet dros y we.** Manylu ar y gwariant a wnaethpwyd. Nid yw'r presept wedi ei dderbyn hyd yma.

Taliadau Ebrill

Cyflog Clerc 6 mis = £533.68

Swyddfa + £510.18

Teithio = £16.20

HMRC payee = £133.40

Accounts = £60

Insurans = £517.76

Cymru 1 = £252 + Taw £50.40

Delyth = £40

Neuadd £10

Tud 3.

Will Hooban Cae Chwarae = £250

Cost Banc £5.00

*Y Fynwent a llwybrau

Nododd y Clerc siom na fydd Jason Coleman yn gallu torri rhain wedi'r cwbwl.

Pasiwyd gofyn I Will Hooban am bris, I dorri'r fynwent. Mae yma nifer fawr o waith I'w wneud yn y fynwent.

Mwsogl ar y llwybr angen ei ladd. Bod gan Eirwyn chwynladdwr ar gyfer hyn. Ei fod yn gwirfoddoli I helpu.

*Llwybrau enwau gan KT ac am ofyn I'r rhain am brisiau.

Eirwyn am anfon map o'r llwybrau iddynt.

*Cae Chwarae – costa mawr efo Cae Deiliog a hefyd Cae Chwarae yn ei gyfanrwydd.

*Cysgodfan Busiau - ger Hafan a'r Vic a chwyn gan reolwyr y Vic parthed gosod cysgodfan gyferbun a'r Vic. Y Clerc wedi anfon yr e bost I Gyngor Gwynedd iddynt hwy ddelio ar mater.

Maent yn gofyn am blaniau o'r cysgodfan pren dan sylw. Y Clerc yn nodi ein bod oll wedi methu gyda hyn, ac y dylem wedi gwahodd y rheolwr I'r cyfarfod ym mis Ebrill.

*Elliw Williams PCO wedi bod yn ymweld a pherchennog y car ar ffordd Mochras, a ger Capel Gwynfryn.

* Gwrychoedd ac ati wedi cael ei gyfeirio at adran gofal stryd.

* Peth Gwaith wedi ei wneud ar wrychoedd gyferbun a Capel Gwynfryn. Ond dim nagos digon.

* Llinos Angharad wedi anfon e bost – diweddariad ennillion cyflym

Open Reach a band eang – Heb gyrraedd y nod. Ond bydd Gwaith yn parhau. Angen cael yr 16 gweddill I gadarnhau drwy e bost I'r cytundeb.

*Amod 4 – parthed Ymgynghoriad cynllunio . Linc / Polisi.Erthygl4@eryri.llyw.cymru

Ar gyfer rheoli 'r defnydd o dai preswyl.

Nododd Gwynfor Owen ei fod yn cefnogi hyn a bydd yn gwneud pob dim o fewn ei allu I helpu pobl ifanc lleol allu prynu tai y n eu cymunedau. Pawb yn unigol I ateb yr ymgymghoriad.

*Gorsaf Dren Talwrn Bach – gwahanol farn ar hyn. Bod Llinos Angharad a Jane T. Williams wedi siarad gyda Lee Robinson parthed hyn (Cyfarfod 4 Mehefin)

Bod y platform ddim digon cryf ac fydd yn rhaid aros am amser I gael y gwelliannau, a felly shelter newydd. Ond mae hyn yn mynd I ddigwydd !!!

*Ennillion cyflym a'r ARIAN – Bod Ken Skates wedi neilltuo mwy o arian ar gyfer ffioedd ymgynghori ac astudiaethau.

Bod £79000 wedi ei wario yn barod gan Gwynedd o'r £300,000 gwreiddiol

Tud 4.

* Taith gerdded protest wedi ei threfnu gan Karl Citz dydd llun gwyl y banc

Nododd Gwynfor ei fod wedi medru trefnu cyfarfod yn Wrecsam 10.6.24

Gyda Gerwyn yn arwain y gwaith. Dyfrig Siencyn. Rhai o'r Llywodraeth a Cyngor Gwynedd a Lucy Powell a Chyngor Cymuned, Dafydd Wyn, Iwan ap Trefor Lee Robinson , Peris Jones.

ADRODDIAD AH

- Arwydd ger Ty Mawr? Nododd y Clerc mae newydd fynd yno I'w hysbysu o hyn.
- Gwrych ger Capel – fawr ohono wedi ei docio yn ol.
- Bod y biniau ailgylchu heb eu casglu rhwng Tyddyn Bach a Allt Goch . Wal yn cael ei chodi ger Allt Goch.
- Toiledau yn iawn rwan.
- Trenau – rhai wedi ei tynnu I ffwrdd.
- Ambiwlans Awyr yn cael ei symud I'r Trallwng. Newydd drwg.

ADRODDIAD GO

- Siom gyda'r newyddion am yr Ambiwlans Awyr. Neb yn y gynulleidfa yn cytuno gyda hyn. Pwysigrwydd diogelu bywydau A55 – Steven Harrhy – Commisiynnydd Gwasanaeth Ambiwlans

Angen sgwennu at Vaughn Gethin I ymyrrud a hyn. Bod ardal yma yn haeddu y gwasanaeth.

Ardal rhwng mor a mynydd.

Steven Harrhy ddim ishio defnyddio yr Ambiwlans Awyr at broblemau fel trawiad calon etc.

- Amseroedd trenau – yn cael llai o drenau. Bod cyfarfod yn Shrewsbury dydd Mawrth. Cyfarfod arbennig efo Pwyllgor Cambrian Coast Liaison a Chyngor Gwynedd I wrthod y toriadau hyn. Llenwi yr ymgynghoriad.
- 20 mya – y newidiadau et o ar y gweill. Bod angen cael y 20 mya yn cychwyn o Cambrian Clearance. Pa newidiadau yda ni eu hangen?<br>Angen sgwennu at Dafydd Wyn Williams.<br>Pasiwyd I roi hwn ar yr agenda mis Mehefin.
- Bod yna denant yn dod I fyw I 1 Ger y LLan mis nesaf.
- Ymgynghoriad Llifogydd – bod KT am ymateb I hyn

Gohebiaeth

1. Pwyllgor ardal Meirionnydd Un Llais Cymru 8..5.24 am 7.00 Llyfrgell Rydd Gofyn efo llwybrau cyhoeddus – cyfrifoldebau bwy yw tyfiant fel rhedyn ar lwybrau ar ffermydd – er mwyn eu cadw yn agored.
2. Materion JE – parthed tyfiant a cyflwr gwael waliau ffordd gefn – dim ymateb
3. Cwyn gan Diane Howie am dyfiant gwair y fynwent
4. Angen gwagio bin brown. Y Clerc wedi gwneud hyn.
5. Cynllun Ardal Ni – 16.5.24 5.30 hyd 7.30 café HAL
6. Angen trafod am y cas deffibulator a'r pads. Gneud hyn eto mis nesaf. RW am edrych ar gostau.